

2012 Rhif 1488 (Cy. 187)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Llangurig i Eisteddfa Gurig,
Powys) (Cyfyngiadau a
Gwaharddiad Traffig Dros Dro)
2012**

Gwnaed *1 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall (2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llangurig i Eisteddfa Gurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A44 yn Sir Powys sydd rhwng Cylchfan Llangurig a ffin y Sir yn Eisteddfa Gurig, ac y'u disgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bydd yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darnau o'r gefnffordd, yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 1 Mehefin 2012

G R Morgan

G MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLEN

1. Cae-mawr i'r Gilfan Uchaf – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ffin Sir Powys yn Eisteddfa Gurig hyd at ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Six Sycamores.

2. Pant-mawr i Sweet Lamb – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Pont Rhydgaled hyd at ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Glansevern Arms.